## Eglurhad

Mae **Mapio Polisïau Bwyd** yn cyfeirio at y broses o gasglu a dadansoddi strategaethau, polisïau a chynlluniau sy'n berthnasol i'r agenda fwyd lleol. Mae hyn yn eich galluogi chi i weld pa flaenoriaethau lleol all gael eu cefnogi drwy weithio ar systemau bwyd cynaliadwy. Hefyd, mae'n bosibl nodi unrhyw fylchau o ran polisïau, neu gyfleoedd i ddylanwadu. Bydd y rhan fwyaf o strategaethau yn rhai cyngor neu'r GIG, ond gallech gynnwys ffocws ar strategaethau rhanbarthol megis rhai gan yr Awdurdod Cyfunol a strategaethau cenedlaethol.

## Cyflwyniad

- Mae mapio polisïau lleol sy'n gysylltiedig â'r agenda fwyd yn gam cynnar pwysig i'w rhoi ar waith o ran deall y cyd-destun y mae eich partneriaeth fwyd yn gweithio ynddo.
- Bydd bod â gwybodaeth dda am flaenoriaethau a thargedau lleol yn amhrisiadwy o ran rhoi eich partneriaeth fwyd mewn sefyllfa dda gydag asiantaethau statudol, a cheisio cyfranogiad gan randdeiliaid allweddol ac uwch arweinwyr.

## Beth i'w wneud

- Chwiliwch drwy wefannau cynghorau lleol, y GIG a gwefannau statudol eraill am strategaethau, polisïau a chynlluniau sy'n berthnasol i'r agenda bwyd cynaliadwy.
- Mae'r agenda bwyd cynaliadwy yn eang iawn, a gall gysylltu â'r rhan fwyaf o adrannau mewn awdurdod lleol.
- Dechreuwch drwy edrych drwy'r meysydd a restrir isod.

| Maes | Strategaethau Enghreifftiol |
|---|---|
| **Iechyd** | Strategaeth Iechyd a Lles, Strategaeth Pwysau Iach, Strategaeth Gordewdra, Strategaeth Diabetes, Strategaeth Asesiad Anghenion ar y Cyd, Cynllun Iechyd y Boblogaeth, Strategaeth Iechyd Meddwl, Cynllun Iechyd Plant a Phobl Ifanc, Cynllun Gweithredu ar Dlodi Bwyd. |
| **Amgylchedd** | Strategaeth Mannau Gwyrdd, Strategaeth Newid Hinsawdd, Strategaeth Di-garbon, Cynllun Dinas Werdd, Strategaeth Goed, Strategaeth Rhandiroedd, Strategaeth Parciau a Mannau Agored, Cynllun Bioamrywiaeth, Cynllun Gweithredu Peillwyr, Strategaeth Seilwaith Gwyrdd. |
| **Caffael** | Polisi Arlwyo a Chaffael, Strategaeth Caffael Cynaliadwy, Polisi Gwerth Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| **Gwastraff** | Strategaeth Wastraff, Strategaeth Gwastraff a Rheoli Adnoddau. |
| **Cynllunio** | Cynllun Lleol, Cynllun Cymdogaeth, Cynllun Datblygu Cymdogaeth |

| Maes | Strategaethau Enghreifftiol |
|---|---|
| **Economi** | Strategaeth Economaidd, Strategaeth Economi Cynhwysol, Strategaeth Economi Ymwelwyr, Strategaeth Twristiaeth. |
| **Cyngor Llawn** | Strategaeth Gorfforaethol, Strategaeth Gwydnwch |
| **Seiliedig ar Leoedd/aml-randdeiliaid** | Cynllun Un Dinas, Cynllun Dinas. |

## Dadansoddi a chofnodi

- Wedi i chi goladu eich strategaethau, bydd hi'n amser eu dadansoddi. Efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol crynhoi pob polisi gan ddefnyddio tabl gyda phenawdau megis:
    - Teitl y Strategaeth
    - Dyddiadau
    - Corff Arweiniol
    - Pwrpas / Gweledigaeth Gyffredinol
    - Fframwaith
    - Nodau Lefel Uchel
    - Dangosyddion Perfformiad Allweddol
    - Materion Allweddol

- Chwilio am flaenoriaethau a thargedau sy'n trafod bwyd, neu sy'n cefnogi eich agenda bwyd.
- Mae hyn hefyd yn gyfle i nodi bylchau mewn polisïau nad ydynt yn trafod bwyd, ond a ddylai drafod bwyd.

## Awgrymiadau

- Efallai y bydd gan wefan eich cyngor dudalen sy'n trafod pob polisi, strategaeth a chynllun
- Gallwch gyflymu pethau drwy ddefnyddio eich swyddogaeth chwilio i chwilio am dermau allweddol mewn dogfennau
  e.e. 'bwyd, 'tlodi bwyd', 'mynediad i fwyd', 'gordewdra', 'pwysau iach'.
- Cofiwch strategaethau mewn Awdurdodau Cyfunol e.e. Fframwaith Gofodol, Strategaethau Gwydnwch, Datblygu Trefol Cynaliadwy, Tai.
- Gofynnwch i chi eich hun 'sut gallwn ni eu helpu nhw i gyflawni ar flaenoriaethau?' A oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y mae eich gwaith yn cyfrannu atynt?
- Gall chwilio am 'ymgynghoriadau' fod yn ffordd dda o weld a oes unrhyw bolisïau ar wefan y cyngor eisoes yn y broses o gael eu hail-ddrafftio.
- Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen ar y wefan, cysylltwch â swyddogion allweddol i gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf.

# Enghreifftiau o Fapio Polisïau

| Teitl y Strategaeth | Dyddiadau | Corff Arweiniol | Pwrpas / Gweledigaeth Gyffredinol | Fframwaith / Nodau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) | Materion Allweddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Lleol Drafft | 2020-2035 | Y Cyngor | Cynllun ar gyfer datblygu'r ardal leol yn y dyfodol. | Polisi Thematig 13: Hyrwyddo iechyd a lles pawb sy'n byw yn y ddinas gan gynnwys:<br><br>Polisi 25 – Hyrwyddo cymunedau iach: Annog tyfu bwyd yn y ddinas ac amddiffyn rhandiroedd presennol.<br><br>Polisi 15 – Tyfu Bwyd a Rhandiroedd: Rhoddir y lefel uchaf posibl o amddiffyniad i randiroedd presennol yn y cynllun hwn. | Dim | Bydd y Cyngor yn annog tyfu bwyd a garddio cymunedol. |
| Strategaeth Iechyd a Lles | 2020-2025 | Y Cyngor | Gwella iechyd ac anghydraddoldebau iechyd mewn deilliannau iechyd. | 3 prif nod:<br>1. Dechrau gorau mewn bywyd<br>2. Bywydau Hapusach, Hirach ac Iachach<br>3. Aeddfedrwydd sy'n ffynnu ac amddiffyn y gymuned | Dim | Gordewdra ymysg plant<br>Tlodi Bwyd<br><br>Cynnwys ffocws ar dyfu bwyd. |
| Cynllun Gweithredu Bwyd Iachus | 2020-2022 | Bwrdd Iechyd a Lles | Dull partneriaeth gydlynol i bwysau iach. | Darparu amgylchedd sy'n galluogi preswylwyr i wneud dewisiadau bwyd iach, cadw'n actif yn gorfforol a chynnal pwysau iach. | Nifer gynyddol o leoliadau ysgol yn tyfu bwyd. | Tyfu bwyd mewn ysgolion |
| Polisi Gwerth Cymdeithasol | 2018 | Y Cyngor | Nodi sut bydd gwerth cymdeithasol yn cael ei ddarparu drwy gaffael a chomisiynu | Nodi egwyddorion gwerth cymdeithasol, gwerthoedd ac ymddygiad, cyd-destun polisi ac amcanion polisi â blaenoriaeth.<br><br>Nodi sut byddant yn cyflawni gwerth cymdeithasol ystyrlon drwy'r contractau sydd ar waith.<br><br>Fframwaith Gwerth Cymdeithasol a Phecyn Cymorth Mesur. | Targed o 40% o gyllideb caffael y cyngor i gael ei wario gyda busnesau micro, bach a chanolig. | Cynnwys ffocws ar<br><br>Masnach deg a moesegol<br>Lleihau gwastraff ac effeithiau ar yr hinsawdd |